**Rheolwr Data: Itec, 029 20 663800**

**Swyddog Diogelu Data: data.security@itecskills.co.uk**

Mae Itec yn deall bod eich preifatrwydd yn bwysig i chi a'ch bod yn poeni am sut y defnyddir eich data personol. Mae Itec yn parchu ac yn gwerthfawrogi preifatrwydd a bydd ond yn casglu ac yn defnyddio data personol mewn ffyrdd a ddisgrifir yma, ac mewn ffordd sy'n gyson â'n rhwymedigaethau ni a'ch hawliau o dan y gyfraith.

Yn unol ag Erthygl 21 o GDPR, gallwch, ar unrhyw adeg, newid sut rydym yn cyfathrebu â chi, diweddaru'r wybodaeth rydym yn ei gadw, tynnu'ch caniatâd a gwneud cais i'ch data gael ei ddileu. Cysylltwch â ni ar 02920663800 neu news@itecskills.co.uk i wneud hynny. Os ydych yn dymuno dad-danysgrifio o e-byst a anfonwyd gennym, gallwch wneud hynny drwy ddilyn y cyswllt ar ddiwedd pob e-bost.

**Pa wybodaeth mae'r sefydliad yn ei chasglu?**

Bydd y sefydliad yn gofyn am eich cydsyniad cyn iddo gadw eich data at ddibenion marchnata ac rydych yn rhydd i dynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg. Mae'r sefydliad yn casglu ystod o wybodaeth amdanoch chi. Gall hyn gynnwys:

- eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost, rhif ffôn
- gwybodaeth pan fyddwch yn cwblhau gwasanaethau cwsmeriaid yn wirfoddol, ymholiadau, rhoi adborth a chymryd rhan mewn cystadlaethau
- casglu gwybodaeth am eich ddefnydd o’r wefan gan ddefnyddio cwcis
- gwybodaeth a gesglir mewn digwyddiadau er mwyn cadw mewn cysylltiad / cyfathrebu
- unrhyw wybodaeth arall rydych yn ei rhannu â ni at ddibenion derbyn cyfathrebiad

Mae'r sefydliad yn casglu'r wybodaeth hon mewn amrywiaeth o ffyrdd. Er enghraifft, gallai data gael ei gynnwys mewn ffurflenni cychwynnol/cofrestru, digwyddiadau, e-byst ymholiadau neu drwy werthusiadau, adborth cwsmeriaid / arolygon neu dicio'r blwch caniatâd optio i mewn ar ein gwefan. Efallai y byddwn yn defnyddio trydydd partïon trwyddedig i ddarparu data personol rheoledig i ni ar gyfer gwerthu a marchnata.

**Pam mae'r sefydliad yn prosesu data personol?**

Mae Itec, a'i chwaer gwmni, y Ganolfan Strategaeth a Chyfathrebu, yn casglu gwybodaeth amdanoch i gysylltu â chi am hyfforddiant a gwasanaethau y credwn fydd o ddiddordeb i chi ac i anfon gwybodaeth atoch am ein gweithgareddau a'n digwyddiadau hyfforddi.

Os ydych wedi cydsynio i dderbyn marchnata, gallwch optio allan yn ddiweddarach. Mae gennych hawl ar unrhyw adeg i'n hatal rhag cysylltu â chi at ddibenion marchnata neu roi gwybodaeth i aelodau eraill o'n grŵp. Byddwn bob amser yn rhoi cyfle i chi dad-danysgrifio. Os hoffech newid eich gwybodaeth neu os nad ydych yn dymuno i ni gysylltu â chi mwyach at ddibenion marchnata, e-bostiwch news@itecskills.co.uk neu defnyddiwch y cyswllt dad-danysgrifio.

**Pwy sydd â mynediad i'r data?**

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu'n fewnol at ddibenion rheoli ein gwasanaeth i chi. Mae hyn yn cynnwys aelodau o dîm Itec.

Efallai y bydd angen i ni rannu gwybodaeth gyfyngedig gyda'n darparwyr gwasanaeth sy'n ein helpu i baratoi ac anfon ein cyfathrebiadau atoch neu brosesu ein hymatebion. Fodd bynnag, ni fyddwn yn

caniatáu i'r sefydliadau hyn ddefnyddio'ch data at eu dibenion eu hunain a byddwn yn cymryd gofal i sicrhau eu bod yn cadw eich data'n ddiogel.

Ni fydd Itec yn rhannu eich gwybodaeth at ddibenion marchnata, gydag unrhyw drydydd parti ac ni fyddwch yn derbyn cynigion gan gwmnïau neu sefydliadau eraill o ganlyniad i roi eich manylion i ni.

Ni fydd y sefydliad yn trosglwyddo eich data y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Ar wahân i'r hyn sydd wedi'i nodi yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn, nid ydym yn rhannu eich gwybodaeth bersonol chi â thrydydd partïon ac eithrio pan fo hynny'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r gyfraith.

**Sut mae'r sefydliad yn diogelu data?**

Bydd data'n cael ei storio mewn amrywiaeth o wahanol leoedd, gan gynnwys ar systemau TG (gan gynnwys e-bost). Mae'r sefydliad yn cymryd diogelwch eich data o ddifri. Mae ganddo bolisïau a rheolaethau mewnol ar waith i sicrhau nad ydy'ch data'n cael ei golli, ei ddinistrio'n ddamweiniol, ei gamddefnyddio neu ei ddatgelu, ac na chaiff ei gyrchu ac eithrio gan ein gweithwyr wrth gyflawni eu dyletswyddau'n briodol. Mae'r broses sydd ar waith fel yr amlinellir yn y Polisi a Gweithdrefnau Diogelu Data a'r Polisi Defnydd Derbyniol ar TGCh.

**Am ba mor hir y mae'r sefydliad yn cadw data?**

Yn seiliedig ar eich cydsyniad ar gyfer marchnata, byddwn yn cadw'r wybodaeth a gadwir amdanoch nes i chi ddweud wrthym nad ydych, neu yn unol â'ch cydsyniad a ddarperir. Os hoffech dynnu'ch cydsyniad i'r sefydliad gadw eich manylion personol, e-bostiwch news@itecskills.co.uk, i optio allan neu ddewis yr opsiwn dad-danysgrifio ar yr e-bost marchnata.

**Eich hawliau**
Fel gwrthrych data, mae gennych nifer o hawliau. Gallwch:

- cael gafael ar eich data a'i gael ar gais;
- ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad newid data anghywir neu anghyflawn;
- ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad ddileu neu roi'r gorau i brosesu eich data, er enghraifft lle nad yw'r data'n angenrheidiol mwyach at ddibenion prosesu;
- gwrthwynebu prosesu'ch data lle mae'r sefydliad yn dibynnu ar ei ddiddordebau cyfreithlon fel y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu; a
- gofyn i'r sefydliad roi'r gorau i brosesu data am gyfnod os yw'r data'n anghywir neu os oes anghydfod ynghylch a yw eich buddiannau'n diystyru rhesymau cyfreithlon y sefydliad dros brosesu data.

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau hyn, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data, data.security@itecskills.co.uk neu yn eu habsenoldeb, humanresources@itecskills.co.uk (Adran Adnoddau Dynol) Gallwch wneud cais mynediad pwnc trwy lenwi Ffurflen Gais Gwneud Mynediad Pwnc y sefydliad. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn N ymlaen llaw o dan Weithdrefnau Ymateb GDPR.

Os ydych yn credu nad yw'r sefydliad wedi cydymffurfio â'ch hawliau diogelu data, gallwch gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Cwcis**

Mae ein gwefan yn defnyddio cwcis i wella eich profiad wrth ymweld â'n gwefan. Mae cwcis yn ffeiliau testun a osodir ar eich cyfrifiadur i gasglu gwybodaeth log rhyngrwyd safonol a gwybodaeth am ymddygiad ymwelwyr. Defnyddir y wybodaeth hon i olrhain defnydd ymwelwyr o'r wefan ac i grynhoi adroddiadau ystadegol ar weithgaredd y wefan a gellir ei defnyddio i lunio adroddiadau ystadegol ar weithgarwch y wefan.

Gallwch osod eich porwr i beidio â derbyn, gwrthod na dileu cwcis, mae'r gwefannau isod yn darparu gwybodaeth ar sut i dynnu cwcis o'ch porwr. Mwy o wybodaeth: www.aboutcookies.org neu www.allaboutcookies.org .

## Google Analytics

Mae ein gwefan hefyd yn defnyddio Google Analytics, gwasanaeth dadansoddi gwe trydydd parti a ddarperir gan Google, Inc. Mae Google Analytics yn gosod cwcis er mwyn gwerthuso eich defnydd o'n safle ac i lunio adroddiadau ar ein rhan ar weithgaredd ymwelwyr. Rydym yn gwneud hyn i ddarganfod pethau fel nifer yr ymwelwyr i wahanol rannau o'r safle. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei phrosesu mewn ffordd nad yw'n adnabod unrhyw un. Nid ydym yn gwneud unrhyw ymgais i ddarganfod pwy sy'n ymweld â'n gwefan.

Mae polisi preifatrwydd Google a gwybodaeth am wrthod neu ddileu eu cwcis ar gael yn www.google.com/intl/en/policies/ .

## Llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol

Rydyn ni yn rhan o blatfformau cyfryngau cymdeithasol yn unol a pholisïau a telerau preifatrwydd nhw. Nodwch gall y platfform cyfryngau cymdeithasol tracio a chadw eich cais i rannu tudalen we trwy ein cyfrif cyfryngau cymdeithasol. Dylech ddefnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol yn ddoeth a chyfathrebu/ ymgysylltu â nhw gyda gofal dyledus a rhybudd o ran data personol eich hun.

Ni fyddwn yn gofyn am ddata personol drwy blatfformau cyfryngau cymdeithasol.

## Newidiadau i'n Polisi Preifatrwydd

Mae ein polisi preifatrwydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd; efallai y byddwn yn newid yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn, yn unol â deddfwriaeth neu newidiadau busnes. Mae unrhyw newidiadau a'n Hysbysiad Preifatrwydd cyfredol ar gael ar ein gwefan. Dylech edrych ar ein gwefan yn achlysurol i sicrhau eich bod yn fodlon ag unrhyw newidiadau.